

Cylchlythyr Cymwysterau GChDDP 2026/27

Wrth i ni baratoi ar gyfer blwyddyn academiaidd brysur arall, hoffem rannu rhai diweddariadau, nodiadau atgoffa a chyfleoedd cefnogi allweddol i'ch helpu i gynllunio ymlaen llaw a chefnogi eich dysgwyr yn llwyddiannus.



Dyddiadau ar gyfer eich dyddiadur

Uned 331 – Cyfnodau Asesu

Cyfres y Gaeaf 2027

- Asesiad ar gael: **6 Hydref 2026**
- Terfyn Amser Cyflwyno: **4 Rhagfyr 2026**

Cyfres Haf 2027

- Asesiad ar gael: **1 Mawrth 2027**
- Terfyn Amser Cyflwyno: **15 Mai 2027**

Arholiadau Ionawr 2027

Uned 216

- Dydd Mercher 13 Ionawr 2027 (AM)

Uned 330

- Dydd Iau 14 Ionawr 2027 (AM)

Digwyddiadau Rhwydweithio yr Hydref

Mae modd cadw lle ar ein digwyddiadau rhwydweithio wyneb yn wyneb yr hydref nawr drwy DIGC.

Mae'r sesiynau hyn yn gyfle gwych i:

- Gwrdd â chydweithwyr o ganolfannau eraill
- Rhannu syniadau ac arferion da
- Derbyn diweddariadau am y cymhwyster
- Gofyn cwestiynau yn uniongyrchol i'r tîm

Rydyn ni'n edrych ymlaen at eich gweld chi yno!

Cyflwyniadau IAMIS: Nodyn i'ch atgoffa

Er mwyn sicrhau y gall eich ymweliad SAA ddigwydd fel y cynlluniwyd, gwnewch yn siŵr bod canlyniadau'r dysgwyr wedi'u cyflwyno ar IAMIS cyn yr ymweliad.

Fel arweiniad, rydym yn argymhell eich bod yn cwblhau'r broses ar IAMIS **o leiaf 14 diwrnod cyn eich ymweliad SAA**. Mae hyn yn rhoi digon o amser i'ch SAA baratoi cynlluniau samplu ac yn sicrhau bod y broses yn rhedeg mor rhwydd â phosibl i bawb.

Ymweliadau Archwilio GChDDP Craidd 2026/27

Bydd ein tîm SAA yn cysylltu cyn bo hir i ddechrau trefnu ymweliadau archwilio **GChDDP Craidd** blyneddol.

Rydym yn anelu at gwblhau'r ymweliadau hyn erbyn y Pasg, gan ein galluogi i ganolbwyntio ar gefnogi canolfannau sy'n cyflawni'r cymwysterau Lefel 2 a Lefel 3 CCPLD yn ystod tymor yr haf.

Ffocws eleni

Y thema ansawdd ar gyfer 2026/27 yw:

Sicrhau Ansawdd Mewnol (SAM)

Edrychwn ymlaen at glywed am y prosesau sicrhau ansawdd rhagorol sy'n digwydd yn eich canolfannau.

Diweddaru Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS)

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi diweddaru'r **Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol** a'r Codau Ymarfer cysylltiedig.

Cymerwch ychydig o amser i adolygu eich deunyddiau addysgu, adnoddau i ddysgwyr a dogfennau asesu i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r gofynion diweddaraf.

Cefnogi Dilyniant: Lefel 1 Llwybr Gofal Plant

Oeddech chi'n gwybod bod CBAC yn cynnig **cymhwyster Lefel 1 Gofal Plant** a all weithredu fel cam tuag at astudiaeth Lefel 2?

Mae'r cymhwyster yn cyd-fynd yn agos â chynnwys Craidd GChDDP a gall gynnig llwybr dilyniant gwerthfawr i ddysgwyr a fyddai'n elwa o ddatblygu eu gwybodaeth a'u hyder cyn symud ymlaen i gymwysterau Lefel 2.

I gael gwybod mwy, cysylltwch â: gchddp@cbac.co.uk

Proses Camu yn ôl i Ddysgwyr

Ar ôl diwrnod y canlyniadau, mae gan ddysgwyr nad ydynt wedi cyflawni'r cymhwyster cyffredinol opsiynau ar gael i gefnogi eu cynnydd.

Opsiwn 1: Ailsefyll

Gall dysgwyr ddewis ailsefyll yr arholiad ym **mis Ionawr 2027**.

Opsiwn 2: Camu yn ôl i GChDDP City & Guilds: Ymarfer

Gall dysgwyr wneud cais i gamu'n ôl i gymhwyster GChDDP City & Guilds: Cymhwyster Ymarfer drwy CBAC lle:

- Mae'r holl unedau ymarfer wedi'u cwblhau a'u cyflawni.
- Mae'r holl unedau ymarfer wedi bod drwy broses sicrhau ansawdd allanol.
- Mae'r holl asesiadau theori gofynnol wedi'u sefyll.

Gellir gofyn am ffurflenni cais gan: gchddp@cbac.co.uk

Terfyn amser i wneud cais: 31 Hydref 2026

Dysgwyr sy'n dal i gwblhau unedau ymarfer

Gall dysgwyr nad ydynt wedi cwblhau eu hunedau ymarfer barhau â'u rhaglen yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf a chael eu cofrestru ar gyfer ardystio yng nghyfnodau mis Ionawr neu Mehefin fel y bo'n briodol.

Cadw lle ar gyfer Eich Ymweliad SAA Haf yn gynnar

Gall yr haf fod yn gyfnod eithriadol o brysur i ganolfannau ac SSAA fel ei gilydd.

Er mwyn sicrhau dyddiad samplu addas a helpu gyda chynllunio ymlaen llaw, rydym yn annog canolfannau i gysylltu â'u SSAA a threfnu ymweliadau'r haf cyn gynted â phosibl.

Gall ychydig o gynllunio nawr helpu i osgoi rhuthro ar y funud olaf yn ddiweddarach yn y flwyddyn!

Pecynnau Cefnogi i Baratoi ar gyfer Arholiadau

Yn dilyn cyfres arholiadau'r haf, bydd deunyddiau cefnogi yn cael eu huwchlwytho i **DIGC** i helpu canolfannau i baratoi dysgwyr ar gyfer cyfres y gaeaf.

Bydd y wybodaeth yn cynnwys:

- Ymatebion dysgwyr wedi'u hanodi gan yr Uwch Arholwr
- Adroddiadau'r Uwch Arholwr
- Negeseuon allweddol a themâu cyffredin y gyfres

Mae'r adnoddau hyn yn rhoi mewnwelediad gwerthfawr i ddisgwyliadau asesu ac maent yn offeryn ardderchog ar gyfer cefnogi addysgu, dysgu ac adolygu.

Diolch

Diolch am eich ymrwymiad parhaus i gyflwyno cymwysterau gofal plant o ansawdd uchel a chefnogi dysgwyr ledled Cymru. Edrychwn ymlaen at weithio gyda chi drwy gydol 2026/27 ac rydym yn dymuno pob llwyddiant i chi ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

 Anfonwch e-bost at **GChDDP@cbac.co.uk** ar gyfer unrhyw ymholiadau neu gefnogaeth gyda'r cymwysterau.